




Together
we will end
homelessness



A MANIFESTO FOR **ENDING** **HOMELESSNESS** IN WALES

This General Election, every party must commit to ending all forms of homelessness by making sure everyone has a safe and stable home.

We are calling on political parties to put in place a plan with the interventions needed to end homelessness.

A commitment to ending rough sleeping and wider forms of homelessness means:



No one sleeping rough.



No one living in transient, dangerous or insecure accommodation. This includes people squatting, living in cars, tents and non-residential buildings. It also includes people who are 'sofa surfing'.



No one living in temporary forms of accommodation without a plan for rapid rehousing into affordable, secure and safe accommodation.



No one homeless as a result of leaving a state institution, such as prison or the care system.



Everyone at immediate risk of homelessness gets the help that prevents it happening.

3 A Manifesto for Ending Homelessness in Wales

Many decisions about housing and homelessness in Wales are made by the Welsh Assembly and the Welsh Government but some issues, such as welfare and migrant homelessness, are made in Westminster by the UK Parliament and Government and affect all parts of the UK.

In this General Election, people will be electing MPs to represent them in Westminster and to make decisions that affect England and the UK as a whole. We're calling on politicians to invest in benefits support and to help some of our most vulnerable citizens:

Increasing investment in welfare assistance to help prevent people becoming homeless

This includes:

- Returning Local Housing Allowance rates to at least the 30th percentile of market rents.
- Increased flexibility to lift the benefit cap in specified circumstances related to homelessness.
- Exempting the following groups of homeless people and those at risk of homelessness from the Shared Accommodation Rate: people made a Housing First offer, all care leavers, people fleeing domestic abuse, prison leavers moving on from Approved Premises, and people leaving supported housing or who have a history of sleeping rough.
- Ensuring that people who are homeless, or at risk of homelessness, receive financial support whilst waiting for their first Universal Credit payment that does not increase homelessness risk or levels of debt.

- Allow Universal Credit deductions to be set at affordable levels. This could be achieved by granting an automatic three-month delay on any Universal Credit deductions for anyone identified as homeless or threatened with homelessness.
- Tailored support should be made available to everyone who is homeless or at risk of homelessness while moving on to Universal Credit. This could be the co-location of Housing and Homelessness Specialists in Jobcentres.
- Provide greater legal clarity to prevent tenants in receipt of housing benefit being discriminated against with regards to lettings.

Greater support for non-UK nationals at risk of homelessness

The solutions to homelessness for people with migrant status are essentially the same as for any other people experiencing the problem but a set of policies now stands in the way. The complex web of rules and entitlements for different migrant groups has created many ways in which homelessness can occur. These must be changed.

This includes:

- Extending the move-on period for newly recognised refugees to at least 56 days and ensure that the providers of asylum support accommodation support people leaving asylum support accommodation who are at risk of homelessness to access assistance from their local housing authority.


4 A Manifesto for Ending Homelessness in Wales

- Ensuring that legal aid is available for the areas of law that will help to prevent or relieve homelessness for migrants. This includes immigration cases and early legal help for welfare benefits, debt, employment and housing advice. There should be additional provision for this type of advice for people who are sleeping rough or are vulnerably housed, alongside a short term offer of accommodation.
- Ensuring that all EU nationals receive sufficient access to housing and welfare support and assistance to prevent and end their homelessness. Following Britain's departure from the EU, this should also include people who are not initially able to secure 'settled status.'

Steps should also be taken to ensure that all non-UK nationals are provided with at least basic provision of temporary accommodation to prevent anyone from sleeping rough and that support is provided to resolve their immigration status as quickly as possible.



Gyda'n gilydd
byddwn yn
rhoi terfyn ar
ddigartrefedd



**MANIFFESTO I
ROI DIWEDD AR
DDIGARTREFEDD
YNG NGHYMRU**

Yn yr Etholiad Cyffredinol hwn, mae'n rhaid i bob plaid ymrwymo i roi terfyn ar bob math o ddigartrefedd drwy wneud yn siŵr bod gan bawb gartref diogel a sefydlog.

Rydym yn galw ar bleidiau gwleidyddol i sefydlu cynllun sy'n cynnwys yr ymyriadau sydd eu hangen i roi terfyn ar ddigartrefedd.

Mae ymrwymiad i roi diwedd ar gysgu allan a mathau ehangach o ddigartrefedd yn golygu'r canlynol:



Neb yn cysgu allan.



Neb yn byw mewn llety dros dro, peryglus neu anniogel. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n sgwatio, sy'n byw mewn ceir, pebyll ac adeiladau amhreswyl. Mae hefyd yn cynnwys pobl sy'n cysgu ar soffas.



Neb yn byw mewn llety dros dro heb gynllun i'w hailgartrefu'n fuan mewn llety fforddiadwy, diogel a saff.



Neb yn ddigartref o ganlyniad i adael un o sefydliadau'r wladwriaeth, megis carchar neu'r system ofal.



Bod pawb sydd mewn perygl uniongyrchol o fod yn ddigartref yn cael help a fydd yn atal hynny rhag digwydd.

7 Maniffesto i roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru

Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n gwneud llawer o'r penderfyniadau am dai a digartrefedd yng Nghymru ond mae'r penderfyniadau ynghylch rhai materion, megis lles a digartrefedd ymysg mudwyr, yn cael eu gwneud yn Llywodraeth a Senedd y DU yn San Steffan ac mae'r rhain yn effeithio ar bob rhan o'r DU.

Yn yr Etholiad Cyffredinol hwn, bydd pobl yn ethol AS i'w cynrychioli yn San Steffan ac i wneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar Loegr a'r DU gyfan. Rydym yn galw ar wleidyddion i fuddsoddi mewn cymorth budd-daliadau ac i helpu rhai o'n dinasyddion mwyaf bregus:

Mwy o fuddsoddi mewn cymorth lles er mwyn helpu i atal pobl rhag dod yn ddigartref

Mae hyn yn cynnwys:

- Dychwelyd cyfraddau Lwfans Tai Lleol i 30ain canradd rhent y farchnad o leiaf.
- Mwy o hyblygrwydd o ran diystyru'r cap ar fudd-daliadau mewn amgylchiadau penodol sy'n gysylltiedig â digartrefedd.
- Eithrio'r grwpiau canlynol o bobl ddigartref a phobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref o'r Gyfradd Llety a Rennir: pobl sydd wedi cael cynnig Tai yn Gyntaf, pawb sy'n gadael gofal, pobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig, pobl sydd wedi gadael carchar sy'n symud ymlaen o Leoliad Cymeradwy, a phobl sy'n gadael tai â chymorth neu sydd â hanes o gysgu allan.
- Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, yn cael cymorth ariannol tra byddant yn aros am eu taliad Credyd Cynhwysol cyntaf sydd ddim yn cynyddu'r perygl o fod yn ddigartref neu lefelau dyled.

- Caniatáu pennu didyniadau Credyd Cynhwysol ar lefel fforddiadwy. Gellid gwneud hyn drwy ganiatáu oedi o dri mis yn awtomatig cyn cymryd unrhyw ddiyniadau Credyd Cynhwysol yng nghyswllt unrhyw un sydd wedi cael ei ddynodi'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref.
- Dylai bod cymorth pwrpasol ar gael i bawb sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref wrth symud ymlaen i Gredyd Cynhwysol. Gellid gwneud hyn drwy gydleoli Arbenigwyr Digartrefedd ac Arbenigwyr Tai mewn Canolfannau Gwaith.
- Darparu mwy o eglurder cyfreithiol er mwyn atal tenantiaid sy'n derbyn budd-dal tai rhag unrhyw wahaniaethu yn eu herbyn yng nghyswllt y broses gosod eiddo.

Mwy o gymorth i bobl sydd ddim yn wladolion y DU sydd mewn perygl o ddigartrefedd

Mae hyn yn cynnwys:

- Ymestyn y cyfnod 'symud ymlaen' ar gyfer ffoaduriaid sydd newydd gael eu hadnabod i o leiaf 56 diwrnod a sicrhau bod darparwyr llety cymorth i geiswyr lloches yn cynorthwyo pobl sy'n gadael llety o'r fath ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i gael cymorth gan yr awdurdod tai lleol perthnasol.
- Sicrhau bod cymorth cyfreithiol ar gael yn y meysydd cyfreithiol a fydd yn helpu i atal neu i liniaru ar ddigartrefedd ymysg mudwyr. Mae hyn yn cynnwys achosion mewnfudo a chymorth cyfreithiol cynnar gyda budd-daliadau lles, dyled, gwaith a chynghor ar dai. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer y math hwn o gyngor i bobl sy'n cysgu allan neu sydd mewn sefyllfa fregus o ran tai, ochr yn ochr â chynnig llety ar gyfer y tymor byr.

8 Maniffesto i roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru

- Sicrhau bod pawb sy'n wladolion yr UE yn cael mynediad digonol at gymorth lles a thai ynghyd â chymorth i atal a rhoi diwedd ar eu digartrefedd. Yn dilyn ymadawiad Prydain o'r UE, dylai hyn hefyd gynnwys pobl sydd ddim yn gallu cael 'statws preswlydd sefydlog' i ddechrau.

Dylid hefyd gymryd camau i sicrhau bod pawb sydd ddim yn wladolion y DU yn cael cynnig llety sylfaenol dros dro o leiaf er mwyn atal unrhyw un rhag cysgu allan a'u bod yn cael cymorth i ddatrys eu statws mewnfudo cyn gynted â phosibl.

Crisis UK (yn masnachu fel Crisis).
Rhifau Elusen Cofrestredig:
E&W1082947, SC040094.
Rhif y Cwmni: 4024938.
CRI0303_WALES